# ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU
## 16 Mehefin 2023

**TEITL:** Adroddiad Blynyddol 2022-23

**AWDUR:** Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2022-23.

1.2. Mae adrodd chwarterol a blynyddol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf. Yn dilyn ystyriaeth gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, caiff yr adroddiadau eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

**2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1. Bod y Bwrdd yn ystyried ac yn nodi'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2022-23.

2.2 Bod y Bwrdd yn cymeradwyo cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2022-23 i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ynghyd â phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

**3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

3.1. Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

**4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

4.1. Mae'r adroddiad blynyddol yn edrych yn ôl ar y cynnydd sydd wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf gan Uchelgais Gogledd Cymru. Mae'n ymdrin â'r Cynllun Twf a'r gweithgareddau cefnogol eraill.

4.2. Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r Cynllun Twf a'r cynnydd sydd wedi'i wneud wrth gyflawni'r prosiectau ynghyd â cherrig milltir allweddol eraill sydd wedi'u cyflawni yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys:

- Cymeradwyo tri achos busnes amlinellol sef y prosiectau canlynol yr Ychydig % Olaf, Ynni Lleol Blaengar a Chanolfan Opteg a Pheirianneg Menter.
- Lansiwyd y prosiect Canolfan Prosesu Signal Ddigidol yn swyddogol ac wedi chwblhawyd y flwyddyn gyntaf o gyflawni gan sicrhau buddion cyntaf y Cynllun Twf.
- Lansiwyd ein Methodoleg Allyriadau Carbon a Bioamrywiaeth.
- Penodwyd tîm ar gyfer gweithredu'r Cynlluniau Ynni Lleol yn y rhanbarth.
- Cymeradwywyd Cyd-fenter gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer safle Bryn Cegin.

- Dau brosiect yn cael ei tynnu nol o'r Cynllun Twf sef y prosiect Safle Strategol Bodelwyddan ac y prosiect Fferm Sero Net Llysfasi. Yn ogystal a lleihau'r prosiect Egni i ganolbwyntio ar un safle.
- Yn sgil yr uchod, cafodd £37miliwn ei ryddhau a galluogodd sefydlu Cronfa Cyflawni'r Portffolio er mwyn cefnogi prosiectau aeddfed i symud ymlaen i weithredu. Ac clustnodi £30miliwn ar gyfer galwad agored i ddenu prosiectau newydd i fod yn rhan o'r Cynllun Twf.

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol yn uniongyrchol o gymeradwyo'r penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn.

**6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau cyfreithiol uniongyrchol o'r adroddiad hwn. Mae adrodd rheolaidd ar berfformiad y Cynllun Twf yn rhan o'r fframwaith llywodraethu y cytunwyd arno ac yn un o ofynion allweddol Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf.

---

**ATODIADAU:**

**Atodiad 1** Adroddiad Blynyddol 2022-23

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:**

"Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb."

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**

"Ni fydd y penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad gwariant newydd. Rwyf yn fodlon fod yr Adroddiad Blynyddol yn adlewyrchiad cywir a theg o holl waith a chynnydd Uchelgais Gogledd Cymru yn ystod 2022/23."